Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Y Gader**
**Dolgellau**
**Gwynedd**
**LL40 1HY**

**Dyddiad yr ymweliad: Medi 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Lowri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Kiff | Arolygydd Tîm |
| Hywel Jones | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol y Gader wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mawrth 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Y Gader oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys gwella medrau rhifedd, llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad yr ysgol ym mron pob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella. Mae data dros dro ar gyfer 2016 yn cynrychioli'r perfformiad gorau erioed i'r ysgol yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion hyn. Mae perfformiad yr ysgol yn 2016 yn llawer gwell na'r perfformiad ym mron pob dangosydd yn 2015 a hefyd yn well na'r perfformiad cryfach yn 2014. Yn ôl y data a'r meincnodau prydau ysgol am ddim dros dro, mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i brydau ysgol am ddim ar gyfer y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol yn nghyfnod allweddol 4.

Yn y dangosydd sydd yn cynnwys 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg, a mathemateg, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella yn sylweddol o'i gymharu â pherfformiad 2015 ac wedi cynyddu 9.1 pwynt canran ers 2014. Mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd hefyd yn well o 6.1 pwynt canran nag yn 2014.

Mae'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella 18 pwynt ers yr arolygiad craidd a 31 pwynt ers 2015.

Ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 2 wedi codi 15.4 pwynt canran ac mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 1 wedi gwella hefyd.

Yn y dangosydd sydd yn cynnwys 5 gradd TGAU A*-A, mae perfformiad yr ysgol wedi dirywio ers yr arolygiad craidd. Mae canran y disgyblion sydd yn ennill 5 gradd TGAU A*-A wedi gostwng o 14.4 pwynt canran ers 2014 ac mae hefyd yn is na'r canran yn 2015.

Mae perfformiad Cymraeg ar lefel 2 wedi gwella 5.4 pwynt canran ers 2014 ond mae'n parhau'n is na'r pynciau craidd eraill. Mae perfformiad Saesneg ar lefel 2 wedi gwella 6.3 pwynt canran ers 2014 ond mae canran y disgyblion sy'n llwyddo i ennill lefel 2 mewn llenyddiaeth yn sylweddol uwch na'r hyn sy'n llwyddo mewn iaith.

Mewn mathemateg ar lefel 2, mae perfformiad yr ysgol 10.4 pwynt canran yn uwch nag yn 2014 ac yn sylweddol uwch nag yn 2015. Mae perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi aros yn sefydlog uchel dros y tair blynedd diwethaf, er gostyngiad bach o 1.9 pwynt canran ar berfformiad 2014.

Yn ôl data dros dro ar gyfer 2016, mae perfformiad bechgyn a merched wedi gwella yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched, ac eithrio mewn Saesneg iaith a'r Gymraeg.

Mae perfformiad disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn gryf yn 2016, ac yn well na pherfformiad disgyblion nad ydynt yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4.

Yn y mwyafrif o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau llafaredd cryf. Maent yn mynegi eu hunain yn glir ac yn hyderus ac yn egluro eu barnau yn synhwyrol. Mae llawer o ddisgyblion yn gymwys wrth darllen er mwyn cywain gwybodaeth ac mae mwyafrif, yn enwedig disgyblion uwch eu gallu, yn dadansoddi testunau yn fedrus. Mae llawer o ddisgyblion yn llunio gwaith ysgrifenedig trefnus a rhesymegol. Maent yn paragraffu'n gywir ac yn strwythuro'u gwaith yn gyson dda. Fodd bynnag, mae gwallau iaith sylfaenol yn y Gymraeg a Saesneg yng ngwaith ysgrifenedig mwyafrif o'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r pedair rheol rhif yn gymwys, yn ymdrin yn hyderus ag unedau ac yn llunio graffiau a siartiau yn gywir. Serch hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion yn or-ddibynnol ar gyfrifiannell ac yn ddi-hyder wrth gyfrif yn y pen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn briodol i greu cyflwyniadau ac i gwblhau gwaith ymchwil. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth ohonynt yn ymarfer ac arddangos uwch fedrau TGCh.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, nid yw disgyblion mwy abl a thalentog yn cyrraedd safonau sydd yn briodol i'w gallu.

**Argymhelliad 2: Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau a sicrhau dilyniant ieithyddol cadarn i'r disgyblion**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gweithredu'n briodol trwy gyflwyno a diwygio gweithdrefnau i wella darpariaeth ar gyfer medrau. Mae hyn wedi arwain at gyfarwyddyd mwy eglur a chyson i staff.

Mae'r ysgol wedi dechrau datblygu'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Cynigir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ac mae mwy o gysondeb yn y modd mae athrawon yn marcio a chywiro gwaith. Mae pwyslais priodol ar fedrau rhifedd gweithdrefnol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn. Mae rhaglen ddefnyddiol o ymyraethau i ddisgyblion sydd angen cymorth i wella eu medrau. Fodd bynnag, hyd yn hyn, mae effaith y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar safonau disgyblion yn gyfyngedig. Yn ogystal, nid yw dealltwriaeth yr ysgol o safonau disgyblion yn y medrau hyn yn ddigon cadarn na chynhwysfawr.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi gwella o ran adnoddau, ond ychydig o ddatblygiadau sydd wedi bod o ran datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y pynciau.

Mae'r ysgol wedi gweithredu'n gadarn i wella dilyniant ieithyddol yng nghyfnod allweddol 3. O ganlyniad, mae agweddau'r disgyblion hyn tuag at ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn gadarnhaol. Mae mentrau megis 'Mudiad Adloniant Dolgellau' a'r 'Bydis Iaith' yn cyfoethogi profiadau cyfrwng Cymraeg disgyblion y tu fewn a'r tu allan i'r ysgol. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion cyfnod allweddol 4 sydd yn astudio eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn isel.

**Argymhelliad 3: Cryfhau'r gweithdrefnau gwrth-fwlio a sicrhau bod disgyblion yn chwarae rôl lawn ym mywyd yr ysgol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi gweithredu'n gadarn i gryfhau ei gweithdrefnau gwrth-fwlio ers yr arolygiad craidd. Bellach, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio. Prin iawn yw'r achosion o fwlio. Mae'r disgyblion wedi cyfrannu'n werthfawr at addasu'r polisi gwrth-fwlio ac mae'r ysgol yn sicrhau proffil uchel i'w gweithdrefnau gwrth-fwlio. Mae cynllun gwaith addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) wedi ei addasu'n bwrpasol i gynnwys unedau penodol ar wahanol fathau o fwlio.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau'r rôl mae dysgwyr yn ei chwarae ym mywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn chwarae rhan gynyddol bwysig yng ngwaith yr ysgol. Mae'r cyngor yn cwrdd yn rheolaidd ac, erbyn hyn, yn trafod ystod eang o faterion sy'n berthnasol i'r disgyblion, megis agweddau ar les disgyblion a nodweddion dysgu ac addysgu effeithiol. Bellach, mae dau aelod o'r cyngor ysgol wedi'u hethol i gynrychioli'r disgyblion ar y corff llywodraethol. Hyd yn hyn, fodd bynnag, nid yw'r cyngor ysgol wedi gwneud digon i hysbysu eu gwaith i'w cyd-ddisgyblion.

**Argymhelliad 4: Gwella ansawdd yr addysgu a chryfhau ansawdd y datblygiad proffesiynol cysylltiedig**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi datblygu gwell ymwybyddiaeth o sut i addysgu'n effeithiol. Mae athrawon a disgyblion wedi cydweithio'n gynhyrchiol i ddatblygu dealltwriaeth gytûn o nodweddion gwersi effeithiol.

Mae llawer o'r gwersi yn drefnus ac wedi'u cynllunio'n ofalus. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn egluro'n effeithiol ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir. Mae perthynas waith gynhyrchiol rhwng yr athrawon a'r disgyblion ac mae'r athrawon yn fodelau iaith da.

Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn paratoi adnoddau deniadol a phwrpasol ac mae tasgau'n adeiladu'n fuddiol ar ei gilydd er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn galluogi disgyblion i weithio'n llwyddiannus yn annibynnol, fel unigolion ac mewn grwpiau a pharau. Mewn ychydig o wersi mae cwestiynu yn heriol ac yn procio dealltwriaeth y disgyblion yn effeithiol.

Mewn tua hanner y gwersi, nid yw'r athrawon yn enghreifftio'n effeithiol er mwyn amlygu eu disgwyliadau o'r disgyblion. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn deall beth yw'r disgwyliadau ohonynt o ran cyrhaeddiad. Yn y lleiafrif o wersi, nid yw'r cwestiynu'n ddigon heriol ac nid yw athrawon yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd neu rifedd disgyblion yng nghyd-destun eu pynciau. Mewn ychydig iawn o wersi, mae'r disgwyliadau yn rhy isel ac nid yw'r tasgau yn ymestyn nac yn ennyn diddordeb y disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, nid yw athrawon yn addasu gwaith i anghenion disgyblion unigol yn ddigon effeithiol ac nid ydynt yn sicrhau bod digon o her i ddisgyblion mwy abl a thalentog.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn gwella ansawdd yr addysgu. Er enghraifft, mae 'triawdau addysgu' wedi galluogi athrawon i rannu arfer dda a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r ysgol wedi darparu cefnogaeth a hyfforddiant buddiol i athrawon sydd yn tanberfformio ac, o ganlyniad, mae perfformiad athrawon penodol wedi gwella.

Mae rhaglen o hyfforddiant wedi galluogi arweinwyr i fod yn gynyddol arfarnol wrth arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw ansawdd arfarniadau gwersi yn ddigon cyson ac nid oes digon o ystyriaeth i'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion.

**Argymhelliad 5: Cryfhau ansawdd yr arweinyddiaeth ar bob lefel a sicrhau bod arweinwyr canol yn chwarae rôl lawn mewn gwarantu ansawdd eu hadrannau**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli wedi eu haildrefnu'n addas. Mae'r uwch dîm rheoli bellach yn cynnwys y pennaeth strategol, pennaeth mewn gofal, dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol a dau aelod cyswllt ychwanegol. Er bod y strwythur yn weddol newydd, mae'r uwch dim rheoli yn cydweithio'n dda ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer yr ysgol. Mae swydd ddisgrifiadau newydd yn cynnwys cyfrifoldebau clir, ac maent yn fwy miniog a phenodol. Mae cydbwysedd addas rhwng cyfrifoldebau strategol yr uwch dim rheoli a dyletswyddau addysgu. Erbyn hyn, mae arweinwyr adran yn derbyn cyfrifoldeb am holl agweddau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ac yn cynnwys blaenoriaethau'r ysgol yn holl waith yr adran. Mae hyn wedi bod yn elfen bwysig o'r aildrefnu.

O ganlyniad i'r aildrefnu, mae llinellau atebolrwydd rhwng yr uwch dîm rheoli a'r arweinwyr canol yn fwy clir. Ceir cyfarfodydd rheolaidd a defnyddiol i drafod safonau, cynnydd disgyblion unigol a chynlluniau gwella. Mae'r arweinwyr canol wedi paratoi adroddiadau hunanarfarnu cynhwysfawr a gwerthfawr. Serch hyn, mae safon yr adroddiadau'n amrywio'n ormodol.

Mae pob arweinydd canol wedi derbyn hyfforddiant buddiol ar gyfer hunanarfarnu, dadansoddi data perfformiad ac arwain adran. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn defnyddio data perfformiad yn dda i adnabod cryfderau a gwendidau disgyblion unigol a grwpiau ac i drefnu cefnogaeth ac ymyrraeth bwrpasol.

Ers yr arolygiad craidd, mae’r llywodraethwyr wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o waith yr ysgol ac maent yn herio tanberfformiad yn gyson.  Mae’r is-bwyllgor craffu wedi cychwyn ar y gwaith o ddwyn adrannau i gyfrif trwy gyfarfodydd heriol a phwrpasol.  Er enghraifft, mae’r is-bwyllgor wedi adnabod yr adrannau sydd angen eu herio ac eisoes wedi cwrdd â’r arweinwyr adran.  Mae llywodraethwyr cyswllt ar gyfer pob maes cwricwlaidd ac mae cyfarfodydd tymhorol pwrpasol yn gwella’u hadnabyddiaeth o gryfderau a gwendidau eu hadrannau cyswllt.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai’r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi’i wneud, a pharhau i fynd i’r afael â’r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.